# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

## RHAN 2

GWARCHOD PLANT A GOFAL DYDD I BLANT

*Y broses gofrestru a gofynion cofrestru*

### 24 Ceisiadau i gofrestru: gwarchod plant

(1) Caiff person sy'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant wneud cais i Weinidogion Cymru i gofrestru fel gwarchodwr plant.

(2) Rhaid i gais—

(a) rhoi unrhyw wybodaeth a ragnodwyd am faterion a ragnodwyd,

(b) rhoi unrhyw wybodaeth arall y gall Gweinidogion Cymru yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ei rhoi, ac

(c) cynnwys gydag ef unrhyw ffi a ragnodwyd.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru ganiatáu cais—

(a) os na chafodd y ceisydd ei anghymwyso rhag cofrestru o dan adran 38, a

(b) os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod yr holl ofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant wedi eu bodloni a'u bod yn debygol o barhau i fod wedi eu bodloni.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru wrthod unrhyw gais o dan is-adran (1) nad yw is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ei ganiatáu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 24 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 75(3)**

**I2** A. 24 mewn grym ar 1.4.2011 gan O.S. 2010/2582, ergl. 2, **Atod. 1** (ynghyd ag Atod. 2, Atod. 3)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 24.